# 10fed Senedd Ieuenctid y Gymanwlad, Delhi, India

Tachwedd 2019

**Adroddiad gan Rhian Shillabeer a Talulah Thomas**

Cyflwyniad

***Geiriau gan Rhian Shillabeer***

Mae Senedd Ieuenctid y Gymanwlad yn ddigwyddiad sy'n dod â phobl ifanc o dros 53 o wledydd ynghyd. Mae'r digwyddiad wedi'i gynllunio i gynnwys barn ac arweinyddiaeth pobl ifanc yn y cylch gwleidyddol rhyngwladol. Mae'r cyfranogwyr yn cymryd rhan mewn senedd ffug a disgwylir iddyn nhw ddiwygio biliau a deddfwriaeth. Ein rôl ni oedd bod yn gynrychiolwyr Cymru a chynnal safon aur o gynrychiolaeth ac addysgu'r rhai o'n cwmpas am y gwaith y mae Senedd Ieuenctid Cymru wedi bod yn ei wneud. Ar yr un pryd, wedi i'r digwyddiad ddechrau, ni fu sôn pellach am y cysylltiad a buom yn canolbwyntio ar ein plaid ddynodedig yn unig a'n rôl o fewn honno. Rhannwyd y digwyddiad yn dri diwrnod, gyda phob un ag agenda strwythuredig a nodau penodol. Fodd bynnag, mae'r digwyddiadau yn llawer ehangach na chynulliad gwleidyddol yn unig. Roedden ni'n gallu bod yn rhan o nifer o ddiwylliannau amrywiol, rhai yr oeddem yn anghyfarwydd â nhw, ac yn gallu gwneud ffrindiau rhyngwladol am oes. Er bod y cynulliad blynyddol hwn yn gyfle i bobl ifanc gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth yn bennaf, mae hefyd yn llawer mwy na hynny.



Yn ystod y tri diwrnod yn yr India buom yn rhan o senedd ffug fanwl a realistig iawn a oedd yn cynnwys gwneud diwygiadau i Filiau a chyflwyno penderfyniadau. Cawsom ein trochi hefyd yn niwylliant India gyda dylanwadau diwylliannol cyson fel perfformiadau a bwyd lleol ochr yn ochr â gwleidyddiaeth. At ei gilydd, rhoddodd y rhaglen hon gipolwg inni, nid yn unig ar sut mae endidau gwleidyddol go iawn yn gweithio, ond caniataodd inni hefyd gael dealltwriaeth gliriach o wahanol ddiwylliannau a ffyrdd o fyw. Gallaf siarad yn hyderus dros Talulah a minnau pan ddywedaf fod y daith hon nid yn unig wedi bod yn addysgiadol o ran ein gwybodaeth wleidyddol ond hefyd o ran ein dealltwriaeth o'r byd. Mae'r daith hon wedi creu ffrindiau am oes ac atgofion am oes y byddwn yn eu trysori at y dyfodol, boed yn gysylltiedig â gwleidyddiaeth ai peidio.





Diwrnod 1 – Talulah Thomas

Roedd y diwrnod mawr wedi cyrraedd! Dechreuodd ein taith fel Aelodau Anrhydeddus o Senedd Ieuenctid Tir y Gymanwlad gyda chyflwyniad Mentoriaid a Chyfranogwyr. Rhoddodd hyn gyfle i bawb ddod i adnabod ei gilydd yn ogystal â chael gwybodaeth gan y Mentoriaid a'r Siaradwyr am Gynulliad Deddfwriaethol Delhi. O'r sesiynau rhagarweiniol a chyfeiriol hyn, cawsom gipolwg pellach ar rôl Deddfau, Deddfwrfeydd a swyddogaethau allweddol dyfeisiau Deddfwriaethol, gweithdrefnau a phleidiau gwleidyddol.

Roedd sesiwn y prynhawn yn cynnwys agoriad ffurfiol 10fed Senedd Ieuenctid y Gymanwlad yng Nghynulliad Deddfwriaethol Delhi. Roedd y digwyddiad anferthol hwn yn cynnwys Anerchiad Croeso a draddodwyd gan Shri Ram Niwas Goel, Llefarydd Anrhydeddus, Cynulliad Deddfwriaethol Delhi. Wedi hynny, cafwyd anerchiad gan Shri Arvind Kejriwal, Prif Weinidog Anrhydeddus, Delhi a Ms Emilia Monjowa Lifaka, AS, Cadeirydd Anrhydeddus, Pwyllgor Gweithredol Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad fel

Gwesteion Anrhydeddus. Traddododd Shri Om Birla, Llefarydd Anrhydeddus, Lok Sabha, y Prif Westai ei anerchiad agoriadol yn Haul y Cynulliad, gan agor y Senedd Ieuenctid yn ffurfiol. Dechreuodd taith y prosesau deddfwriaethol a seneddol wrth i'r holl Aelodau newydd gael eu croesawu ac i Fasiha Hasaan, Llefarydd Anrhydeddus Tir y Gymanwlad, annerch y Tŷ. Yn dilyn hyn, cymerodd yr Aelodau lw ag un llais gan ddatgan y byddwn ni fel Aelodau yn cyflawni'r cyfrifoldeb i amddiffyn budd y genedl (Tir y Gymanwlad) a'n pobl.



Wrth wrando ar Anerchiad Llywydd Tir y Gymanwlad, dywedodd ei fod yn credu y bydd pob aelod yn cyflawni ei ddyletswydd gyda'r cywirdeb, y diwydrwydd a'r diffuantrwydd mwyaf. Fe wnaeth Anerchiad y Llywydd hefyd ein haddysgu am nodweddion, problemau a heriau Tir y Gymanwlad. Sicrhaodd hyn fod yr holl Aelodau'n gwbl ymwybodol o'r math o Lywodraeth y byddai'r Wrthblaid yn ei herio yn y pen draw. Rhoddodd y cyflwyniadau a'r anerchiadau hyn a gyflwynwyd i'r Tŷ gan westeion ffurfiol a Siaradwyr Anrhydeddus gipolwg inni ar drafodion ffurfiol seneddol. Roedd hwn yn brofiad nad oeddwn i na Rhian erioed wedi'i gael o'r blaen. Rhoddodd y trafodion hyn gyfle inni drochi ein hunain yn llwyr yn y digwyddiadau parhaus yn y system seneddol. Cynigiodd y Gweinidog Anrhydeddus drafodaeth ar gynnig o ddiolch am Anerchiad y Llywydd '' Bod y Tŷ hwn yn mynegi ei ddiolch i'r Llywydd Anrhydeddus am ei anerchiad a draddodwyd i'r Senedd ar 25 Tachwedd 2019''. Roedd y gweithgaredd seneddol penodol hwn hefyd yn rhywbeth nad oeddem erioed wedi'i brofi o'r blaen, fel llawer o'r systemau ffurfiol y daethom ar eu traws fel Aelodau o'r Senedd Ieuenctid.

Aeth y diwrnod yn ei flaen wrth inni rannu i'n rolau Seneddol fel Aelodau, Talulah yn arfer rôl Gweinidog Lles Cymdeithasol gweddol asgell dde yn y blaid sy'n rheoli, a Rhian fel Aelod ewn a mwy rhyddfrydol o'r Wrthblaid. Gallem ddweud bod pethau'n mynd i fod yn ddiddorol iawn yn wir! Gan fod y pleidiau a'r rolau ynddynt wedi'u sefydlu, roedd yn amser dechrau ar ein cwestiynau ac atebion paratoadol, gwelliannau i Fil Cronfa'r Hinsawdd a chyfeiriadau arbennig yn barod ar gyfer digwyddiadau'r dyddiau canlynol.

<u>Diwrnod 2 – Talulah Thomas</u>

Wrth edrych yn ôl, ar Ddiwrnod 2 trafodion Senedd Ieuenctid y Gymanwlad y cynhaliwyd y digwyddiadau a’r dadleuon mwyaf addysgiadol. Roeddent yn rhan hanfodol o’n proses ddysgu fel Aelodau o’r Senedd Ieuenctid. Dechreuwyd trwy annerch y Tŷ drwy’r broses o 'Gyfeiriadau Arbennig', sy’n tynnu sylw at broblemau a heriau sy'n wynebu ein Senedd. Er bod llawer o'r problemau hyn yn ddychmygol, heb amheuaeth roeddent yn cyd-daro â llawer o'r problemau sy’n wynebu llawer o'r gwledydd a oedd â chynrychiolaeth yn Senedd Ieuenctid y Gymanwlad. Caniataodd hyn inni gael cipolwg ar broblemau byd-eang nad oeddem efallai yn ystyried eu bod yn bodoli neu'n parhau, gan ein bod yn dod o wlad ddatblygedig.  Mae'r profiad o allu trafod ac ehangu ein dealltwriaeth o'r ystod eang o broblemau sy'n wynebu gwledydd a chenhedloedd sydd heb ddatblygu'n ddigonol wedi agor ein llygaid i wleidyddiaeth fyd-eang, mewn ffordd y gallai rhywun ddweud sy’n eithaf unigryw efallai.

**Special Mention:**

A member of my constituency St.Thompso has came to me and highlighted that they are very passionate about policy making and being in the driver seat as it relates to youth development and participation in politics along with positive things.

However when consulted the government, he was told that youth investment in politics is a mockery of the system and mediocre.  This was also mentioned in the session yesterday by Minister Jones.

The opposition strongly believes in youth development, entrepreneurship and leadership. We are hereby concerned that if this government doesn’t allow for youth participation now, when we the current leaders are dead and gone there will be chaos and no order on commonwealth land.

Mr. Tyrell Giles

**Special Mention:**

Thank you madam speaker, during past 3 years, I had an opportunity to present many a social issues in the house. the most important issues in were concerning women and child abuse. today i am presenting issue related to mental health.as the c. S. Lewis quoted “Mental pain is less dramatic than physical pain, but it is more common and also harder to bear. The frequent attempt to conceal mental pain increases the burden: it is easier to say “My tooth is aching” than to say “My heart is broken.”

In today's time  2443 people are affected by mental health on daily basis in 1 lakh population. I want to tell you madam, this section is the most marginalised and neglected in our society. they include mentally issues like depression and even those who have these challenges from birth. I would like to request our honorable health minister to formulate some policies which will increase financial assistance in form of Healthcare Centres which are specialised in mental health and even some regular health checkup in every area possible so that all get the benefit of it, leaving no one behind.The  people affected from mental issue constitution about 5 crore of our population, deserves special care and protectionI request the government to immediately take steps in this regard. I am thankful to you madam speaker for allowing me to raise this issue on the floor of the house. thank you madam.

Sonam Gupta

## Special Mention:

Madam speaker, young people's participation in politics in commonwealth land is at an all time low. Those young people who are less educated or from an ethnic minority background are even less likely to believe they can have any influence in politics.

But opportunities to understand how politics and democracies work, or the ability to speak and be heard, are few and far between for many young people. The media and political establishment has failed to properly engage with young people.

But to all the young people of the commonwealth land: your opinion matters and it is a failure of this house that you feel so alienated from the political system.

So I am advocating that citizenship and politics be made a core part of the curriculum in state education. We have to give young people the tools they need and deserve to contribute to our democracy as their opinions are just as valuable as anyone else's.

If this house can work together, to get behind an issue I'm sure we all really care about, I'm hopeful things can change for the better for young people.

**Banseka Kayembe**

## Special Mention:

Thank you madam speaker, for providing me an opportunity to raise a matter of urgent public importance in the house. I would like to speak about the state of female literacy in our nation, the Commonwealthland.

The woman have a mere 60 percent literacy rate, in comparison to the other gender, with a whooping 80 percent. Female literacy doesn't only have an intrinsic value, but also instrumental value attached to it. Quoting a recent interaction, in one of the constitutency of Commonwealthland, how being illiterate, and belonging to a poor household, she was forcibly married to a groom much elder than her, and how she barely manages to support her family, after his demise. It reflects how being illiterate, she is unable to come out of the darkness which surrounds her. Being educated, makes a female, self-dependent, gives her the freedom to protect herself from any kind of oppression or injustice against her. Talking about the instrumental value, attached to it, more educated female population, implies more female working force; leading to a rise in GDP as well. Also, it is the multi-dimensional impact which I want the house to focus on i.e. being a mother, if female is more educated, she can better take care of her child, apply the medical procedure properly, a working woman implies more financial resources are available with the family, so the household can devote more resources to the child care. Hence, it simultaneously fights with the widespread problem of child-mortality and poverty as well. Female literacy implies more informed woman, hence a better society, more tolerable for both gender. It would open the new corridors of employment opportunities for them. Keeping in view all the great impact, efforts in this direction can have on our economy. I request the house to assign die importance to this, in the Woman and child development bill, proper initiative backed by appropriate funds can do the needful. One of the major step could be to provide education to females, at a subsidized fee, so that it is affordable for all. Additionally, equal workforce behaviour and treatment should be ensured for both the gender.

Yr her nesaf a oedd yn ein hwynebu ni, Weinidogion Llywodraethol, oedd ateb y cwestiynau a ddrafftiwyd gan yr Wrthblaid. Fel Gweinidog Lles Cymdeithasol, cefais fy nghwestiynu a fy holi lawer gan Aelodau Anrhydeddus yr Wrthblaid. Dim ond y bore hwnnw yr oeddwn wedi gweld y cwestiynau hyn mewn gwirionedd, felly roedd yn her enfawr ceisio meddwl yn gyflym heb fawr o waith paratoi. Roedd y rhan hwn o'r profiad yn wefreiddiol ac yn gyffrous a rhoddodd gipolwg inni ar faterion sy'n codi'n aml yn y Senedd. Rhoddodd hefyd gyfle i Aelodau'r Wrthblaid graffu a herio'r blaid sy'n Rheoli, a'n gorfodi ni, Weinidogion, i fod yn atebol am weithredoedd a phenderfyniadau'r Llywodraeth hyd yn oed os nad oeddem o reidrwydd yn cytuno â nhw fel unigolion - fe wnaeth inni wirioneddol chwysu!

Cwestiynau a godwyd gan Aelod Anrhydeddus o'r Wrthblaid, Rhian Shillabeer

**Women Literacy Rate**

**QUESTION NO. 5** Ms. Rhian Shillabeer
Will the Minister of EDUCATION be pleased to state:

(a) whether the Government is aware that women are not able to afford private schooling in order to better their literacy rate,
(b) if so, details thereof, and
(c) the steps being taken by the Government in order to raise the women literacy rate to meet men's?

**Unemployment Rate**
**QUESTION NO. 15** Ms. Rhian Shillabeer
Will the Minister of FINANCE be pleased to state:
(a) whether the Government is aware that the unemployment rate is high at 7% in the country,
(b) if so, the details thereof, and
(c) the action plan of the Government to reduce the unemployment rate in the country?

Cwestiynau a godwyd ar gyfer Gweinidog Lles Cymdeithasol y Blaid Reoli, Talulah Thomas

**Upliftment of Unprivileged Women, Men and Community**

**QUESTION NO. 1** Ms. Nephilian Kasuka
Will the Minister of SOCIAL WELFARE be pleased to state:
(a) the challenges identified by the Government for upliftment of unprivileged women, men and community, and
(b) the manner in which the Government proposes to make sure that unprivileged women, men and community are appropriately considered and supported?

**Dependence on Government Subsidies**
**QUESTION NO. 3** Mr. Naqiuddin Nazrin
Will the Minister of SOCIAL WELFARE be pleased to state:
(a) the challenges identified by the Government to encourage less dependence on Government subsidies, and
(b) the manner in which the Government proposes to tackle these issues?

**Women in Politics**

**QUESTION NO. 6** Mr. Aaron Santos
Will the Minister of SOCIAL WELFARE be pleased to state:

(a) the steps being taken by the Government to entice women to get involved in politics?

Roedd sesiwn y prynhawn yn cynnwys ehangu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth drwy ddadlau, trafod a phleidleisio ar ein busnes deddfwriaethol. Roedd y sesiwn yn canolbwyntio ar gynnig Ms Adriana Jane Lopez, Gweinidog Anrhydeddus yr Amgylchedd

am ganiatâd i gyflwyno Bil i sefydlu Cronfa Hinsawdd i Fenywod. Bil oedd hwn a gynigwyd i gefnogi menywod i liniaru effaith andwyol newid yn yr hinsawdd ac addasu i newid yn yr hinsawdd. O fewn hyn, y syniad oedd eu grymuso ar gyfer gwytnwch ac addasu yn erbyn effeithiau anffafriol, cas newid yn yr hinsawdd ar amaethyddiaeth. Fel y gallwch ddweud, mae'r Bil hwn yn addas iawn ac roedd ei berthnasedd cyfoes yn amlwg i'w weld. Rwy'n credu bod hwn yn syniad gwych gan Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad oherwydd, er ei fod yn gysyniad dychmygus, mae'r rhain yn broblemau go iawn sy'n wynebu llawer o garfanau mewn cymdeithas, yn enwedig grwpiau a llwythau brodorol sy'n wynebu ôl-effeithiau newid yn yr hinsawdd yn yr oes fodern hon. Mewn gwirionedd, achosodd y Bil imi hyrwyddo fy astudiaeth o effeithiau newid yn yr hinsawdd ar grwpiau agored i niwed, sy'n rhywbeth y credaf y dylid addysgu pobl ifanc amdano yn ystod yr oes fregus hon o anhrefn amgylcheddol a llygredd mewn gwleidyddiaeth fodern.



TIMES CITY

## Answers on climate issue at youth parliament

TIMES NEWS NETWORK

New Delhi: The Commonwealth Youth Parliament on Tuesday introduced The Climate Fund for Women Bill, 2019, which was passed after extensive debate during which participants underlined the threat the climate change poses.

The session of the House took place inside the chambers of Delhi assembly, which is hosting Commonwealth Youth Parliament to enlighten the youth about legislative processes and encourage their participation in decision-making.

The event, which began on Monday, is being attended by 47 students from 24 countries, including the United Kingdom.

The House moved resolutions on inclusive urbanisation with an aim to provide adequate, accessible, secure and affordable housing, besides a resolution on "youth as key drivers of implementation of sustainable development goals". Both the resolutions were passed. The House was adjourned till Wednesday.

Wrth hyrwyddo'r ddadl ar y Gronfa Hinsawdd i Fenywod, cododd yr Wrthblaid a'r Blaid  Annibynnol welliannau a phenderfyniadau ar y Bil. O'r rhain, derbyniwyd llawer yn dilyn trafodaethau dwys ar bob gwelliant. Fodd bynnag, cafodd llawer eu herio neu eu gwrthod gan y blaid sy'n Rheoli o ganlyniad i arbenigedd ein Prif Chwip yn y cyfreithlondebau y tu ôl i'r gwelliannau a godwyd. Roedd hwn yn brofiad rhagorol o ran cael dealltwriaeth a gwerthfawrogiad dyfnach o gyfreithlondebau o fewn y system Seneddol a phwyntiau o drefn yn ystod dadleuon.

Ac felly, mae'r canlyniadau i mewn!

Pleidleisiodd pob Aelod Anrhydeddus unigol o'r Tŷ 'O blaid' y Bil ar Gronfa Hinsawdd i Fenywod. Roedd y profiad o ddadlau, herio a sicrhau tir cyffredin a'r nod yn y pen draw yn hanfodol i'n profiad fel Aelodau o'r Senedd Ieuenctid wrth inni ddechrau deall y system a'r codau ymddygiad yn llawn yn ystod prosesau Deddfwriaethol. Yn dilyn dwyster ein profiad yn y Cynulliad, cawsom wahoddiad cynnes i Raglen Ginio a gynhaliwyd gan Lefarydd Anrhydeddus, Cynulliad Deddfwriaethol Delhi ar Lawntiau'r Cynulliad. Roedd hwn yn brofiad gwirioneddol wych wrth inni ymchwilio i ddiwylliant y wlad a oedd yn ein croesawu, gyda digwyddiadau cerddorol rhagorol a oedd yn cynnwys llawer o amrywiadau ar ddawns draddodiadol. Un gair: WOW. Am noson!



<u>Diwrnod 3 – Rhian Shillabeer</u>


Hwn oedd ein diwrnod llawn olaf yn India ac roedd ein hemosiynau eisoes yn rhemp. Wrth gwrs, dechreuodd y diwrnod gyda brecwast yn y gwesty a thaith fws gyflym ac eithaf cyfarwydd erbyn hyn ar draws Delhi i'r cynulliad. Ar ôl cyrraedd, cawsom ein rhannu'n gyflym i'n priod bartïon er mwyn cael cyfarfod tîm cyflym a mynd drwy'r agenda am y diwrnod. Yr agenda oedd cau'r senedd a chrynhoi ein holl waith yn ystod y tri diwrnod diwethaf, dathlu'r gwaith hwnnw a chael un rownd olaf o gwestiynau ac atebion. Ar ôl y cyfarfod tîm cyflym, fe wnaethom eistedd am y tro olaf. Aethpwyd drwy'r trafodion yn llawer cyflymach na'r dyddiau blaenorol oherwydd erbyn hyn roedd yr holl aelodau'n gyfarwydd â phroses y siambr. Yn ystod y sesiwn holi ac ateb, paratôdd yr wrthblaid ar gyfer yr ymosodiad yr oeddent wedi'i wynebu yn ystod y dyddiau blaenorol. Ond roedd yr awyrgylch ar y llawr yn wahanol iawn heddiw. Cafodd y rhan fwyaf o gwestiynau ymatebion ysgafn a llawer o chwerthin yn enwedig i'r Aelod Anrhydeddus Lorenzo Carey, Gweinidog Cyllid y brif blaid.



Wedyn, cyflwynodd y Llefarydd bleidlais nad oedd y llawr yn ei disgwyl, sef pleidlais ynghylch a ddylai Senedd Ieuenctid y Gymanwlad barhau am flynyddoedd i ddod. Ni chafwyd trafodaeth flaenorol ar y bil hwn, gan mai'r bwriad oedd gadael pob cysylltiad pleidiol ar ôl a chanolbwyntio ar warchod cyfranogiad ieuenctid mewn gwleidyddiaeth. Roedd yr awyrgylch ar y llawr wedi newid yn gyflym o fod yn ysgafn i fod yn ddifrifol mewn amrantiad. Cyflwynodd y siaradwr y bil, darllenodd y cynnwys yn gryno ac yna fe'i rhoddodd i'r llawr. Wedyn, cyflwynodd y prif weinidog araith a oedd yn ysbrydoledig ac yn berthnasol iawn. Roedd yr araith yn cynnwys llawer o resymau pam mae parhau â'r digwyddiadau hyn o'r pwys mwyaf i annog cyfranogiad ieuenctid. Daeth ein heisteddiad olaf yn y Senedd i ben gydag areithiau cloi gan arweinwyr pob plaid. Roedd yr holl areithiau hyn yn emosiynol, yn enwedig araith Joseph Barker, y gweinidog anrhydeddus a roddodd bwyslais ar y cyfeillgarwch yr oeddem i gyd wedi'i ffurfio a'r undod a oedd yn cael ei deimlo gan y grŵp cyfan. I orffen gwleidyddiaeth y daith, buom yn ddigon ffodus i gael sgwrs fer gan Miss Fasiha De Affrica. Roedd y sgwrs yn sôn am ei phrofiadau fel Aelod Seneddol benywaidd ifanc a sut y llwyddodd i gyrraedd y man lle y mae heddiw.



Wrth symud o'r cynulliad cawsom gyfle i ymweld ag un o rannau hynaf Delhi, y Qutub Minar. Cawsom ein harwain gan arweinydd gwybodus iawn a esboniodd hanes maith yr ardal a'r adeiladau oddi mewn iddi. Yna aethom i ginio hudolus yng ngardd y pum synnwyr a oedd yn un o'r profiadau mwyaf unigryw i mi ei gael. Roedd y bwyd yn anhygoel ac yn ogystal â hynny roedd mwy o ddawnsio gyda'r grŵp a derbyniad anhygoel gan y gwesteion. Fodd bynnag, ni allem aros yn hir gan fod angen inni adael yn gyflym ar gyfer hedfan adref.



Wedyn, daeth rhan waethaf y daith, y ffarwelio. Fi a Talulah oedd un o'r rhai cyntaf i adael felly cawsom gyfle i ffarwelio, a oedd yn fendith ac yn felltith. Fe wnaethom wneud ein gorau glas i gyfnewid manylion fel y gallem i gyd gadw mewn cysylltiad.

Casgliadau – Talulah Thomas




Y sgil bwysicaf a gefais o'r profiad oedd y wybodaeth ddyfnach o sut mae trafodion deddfwriaethol a seneddol yn gweithio. Nid oedd hyn yn rhywbeth a ddysgais yn yr ysgol erioed. Teimlaf y gallaf gymryd mwy o ran mewn gwleidyddiaeth gan fy mod yn deall yn gliriach sut mae pethau'n gweithio. Mae hyn wedi tynnu sylw at y rhesymeg pam nad yw pobl ifanc yn cymryd rhan yn y byd gwleidyddol. Credaf ei fod yn ymwneud â'r diffyg addysg am drafodion a'r cymhlethdod sy'n aml yn ymwneud â digwyddiadau gwleidyddol yn y Senedd. Dysgais hefyd beth yw gwir ystyr bod yn 'Seneddwr'. Nid yw o reidrwydd yn golygu bod yn rhaid ichi weiddi a ffrydio ffeithiau, ystadegau a chreu helynt am rai materion i brofi'ch gwybodaeth. I fod yn Seneddwr, credaf y dylech fod â'r gallu i rymuso, trwy dosturi a mabwysiadu dealltwriaeth glir o **bobl**. Mae hyn yn rhywbeth yr hoffwn ei rannu gyda fy nghyd-aelodau o'r Senedd Ieuenctid ochr yn ochr â phobl ifanc yma yng Nghymru.

Roedd yr araith gan Fasiha Hassan, Aelod Seneddol Ewropeaidd ieuengaf De Affrica, yn brofiad a gadarnhaodd pam fy mod am wneud newidiadau a dylanwadu ar benderfyniadau a wneir gan y mawrion ym myd gwleidyddiaeth. Gallaf ddweud gyda'r gonestrwydd mwyaf na chefais erioed fy ysbrydoli gymaint gan eiriau rhywun arall ac adlewyrchiad o'u

profiadau. Buom yn trafod menywod mewn gwleidyddiaeth a phŵer cyfranogiad a gweithredaeth ieuenctid mewn ffordd real a dilys iawn - gan gael gwared ar unrhyw ddwli a glywaf yn aml gan bobl mewn swyddi uchel sy'n dweud wrth bobl ifanc am gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth.



Roedd y daith yn sicr yn rhagori ar fy nisgwyliadau. Roedd yn heriol wrth imi ymgymryd â gweithgareddau nad oeddwn erioed wedi'u gwneud o'r blaen, meddwl am heriau a phroblemau nad oeddwn erioed wedi'u trafod o'r blaen. Fodd bynnag, mae **hyder** wedi dod yn sgil yr her honno**,** nid yn unig ynof fy hun fel merch ifanc sy'n gobeithio mynd i fyd gwleidyddiaeth ac arbenigo mewn hawliau dynol, ond hyder yn ein cenhedlaeth o bobl ifanc. Hyd yn oed os nad oes gennym unrhyw bŵer deddfwriaethol hyd yma, rydym yn sicr yn genhedlaeth o weithredwyr sy'n ymgyrchu dros newid ac sy'n gobeithio dylanwadu ar benderfyniadau. Mae 10fed Cynhadledd Senedd Ieuenctid y Gymanwlad yn brawf clir o'm datganiad.